

arolwg caris 2019

data o 1998 tan 2018




Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyflwyno cyfraddau mynychter anomaleddau cynhenid ac afiechydon prin allweddol yng Nghymru, gan ganolbwyntio eleni ar y cluniau. Mae'r cyfraddau mynychter wedi'u diweddarau, i gynnwys data 2018 a ryddhawyd fel Ystadegau Swydddogol.

Camdyfiant y Cluniau

Y term a roddir i fethiant cymal 'pêl a soced' y glun i ymffurfio fel y dylai yw Dysplasia (Camdyfiant) Datblygiadol y Glun (DDH yn Saesneg). Mae'r term hwn yn disgrifio sbectrwm o anomaleddau strwythurol sy'n ymestyn o ansadryddyd i led-ddatgymaliad neu ddatgymaliad llwyr yn yr achosion mwyaf dybyrd. Y farn gyffredin yw bod diagnosis cynnar a thriniaeth gynnar yn debyg o olygu canlyniadau gwell. Adroddwyd am 1,560 o achosion yng Nghymru rhwng 1998 a 2018, sef rhyw 74 o achosion y flwyddyn neu gyfradd o 22.3 i bob 10,000 o enedigaethau byw a marw. Garwyd y rhan fwyaf o achosion (99.6%) yn fyw, a babanod benywaidd oedd 81% ohonynt. Nifer yr achosion â datgymaliad neu led-ddatgymaliad oedd 537 (26 y flwyddyn) a 78 (4 y flwyddyn) yn y drefn honno. Roedd Talipes equinovarus yn bresennol yn ogystal mewn 6.3% o'r achosion o DDH.

Ni lwyddwyd i ddarganfod datgymaliad nes i'r plentyn gyrraedd un flwydd oed mewn 20% o'r achosion a adroddwyd. Serch hynny mae cyfraddau darganfod DDH yn gynnar wedi gwella rywfaint ers 2014: gweler Ffigur 1. Dylid nodi bod y gostyngiad yn nifer yr achosion a ddarganfyddir adeg y geni a welwyd rhwng 1998 a 2005 yn debyg o fod yn ganlyniad i newidiadau o ran protocol wrth amseru sganadau diagnostig.

FFIGUR 1 Pob achos o ddatgymaliad y glun, y dyddiad pan dybiwyd yn gyntaf bod anomaledd yn bresennol; cyfradd dreiglol 3 blynedd i bob 10,000 o enedigaethau byw a marw, Cymru, 1998-2018



Cyhoeddwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio CARIS a PHB (ONS)

Cysylltwch â ni

CARIS, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Lefel 3, Bloc yr Adain Orllewinol, Ysbyty Singleton, Lôn Sgeti, Abertawe SA2 8QA
Ffôn: 01792 285241 (WHTN 01883 6122) E-bost: CARIS@wales.nhs.uk Caris.SafehavenMailbox@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Clefyd Perthes

Clefyd Perthes yng Nghymru

Yn ystod ei datblygiad at fod yn Gofrestr o Glefydau Prin mae CARIS wedi arolygu Clefyd Perthes (Legg-Calve-Perthes) eleni. Anhwylder cymal y glun yw hwn; mae'n effeithio ar blant, a gall achosi cryd cymalau esgyrnol (osteoarthritis) cynamserol. Clefyd prin ydyw¹ (ystyrir bod ganddo fynychder o lai nag 1 ym mhob 2000 o enedigaethau), ac nid yw'n amlwg pam y mae'n digwydd.

Mae'r cyflenwad gwaed i ben y forddwyd (ffemwr) yn llai nag y dylai fod, ac o'r herwydd, mae'r asgwrn yn troi'n feddal ac yn diffygio.

Mewn achos nodweddiadol bydd bachgen tua 5 mlwydd oed yn dioddef poen yn y pen-glin (a atgyfeiriwyd o'r glun) ynghyd â chloffni ar yr ochr chwith. Bydd delweddu'n cadarnhau'r diagnosis, a bydd y driniaeth yn amrywio rhwng monitro syml, gorffwys yn y gwely a thyniant. Efallai y bydd angen llawdriniaeth, sef asgwrndrychiad (osteotomi) fel arfer. Mae iachâd yn arfer cymryd tua dwy flynedd.

Dadansoddiwyd data o'r Gronfa Ddata Gymunedol ar Iechyd Plant ac o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW). Datgelodd hyn 303 o achosion rhwng 1998 a 2014. Mae cyfraddau mynychter wedi amrywio'n eang, gyda cyfraddau is yn ddiweddar sydd wedi amrywio rhwng 4.9 (2007) a 0.6 (2013) i bob 10,000 o enedigaethau.

Mae'r gyfradd fynychter a amcangyfrifwyd i bob 100,000 o blant 0-14 oed ar sail ffigyrau poblogaeth yn amrywio o 3 yn 2006 i 0.6 yn 2014. Mae hyn yn golygu mai un achos a ddiagnosiswyd i bob 33,000 o blant yn 2006, sef y flwyddyn â'r gyfradd fynychter uchaf.

Roedd 113 o gofnodion ar gael i'w dadansoddi o blith y 303 o achosion. Yn y rhain cafwyd cymhareb gwryw:benyw o 3:1 (86 o wrywod a 27 o fenywod).

Roedd amser y diagnosis ar gael mewn 111 o achosion; ymestynnai hyn o ychydig llai na dwy flwydd oed i fwy nag 14 oed (gweler ffigur 2). Oedran gymedrig y diagnosis oedd 5 mlwydd 8 mis oed.

Roedd manylion ochredd ar gael mewn 100 o achosion. Roedd 57 (57%) o'r achosion ar yr ochr chwith, 36 (36%) o achosion ar yr ochr dde a 7 (7%) o achosion ar y ddwy ochr. Yn yr achosion unochrol, y gymhareb ochr chwith:ochr dde oedd 1.6:1.


Mae cofnod i lawdriniaeth ddigwydd mewn 35 (31%) o achosion, a'r driniaeth a gyflawnwyd amlaf oedd osteotomi a sefydlogi cymal.

O'r 113 o achosion, roedd gan 10 (8.8%) anomaledau cynhenid gan gynnwys tri o blant â gwefus neu daflod hollt.


Roedd yna gydberthynas linellol ag amddifadedd (gweler ffigur 3) sydd wedi cael ei disgrifio o'r blaen yn yr ysgrifau ar y maes².

Roedd yr anhwylder hwn ar un o set o efeilliaid. Ni chofnodwyd bodolaeth chwiorydd na brodyr.

FFIGUR 2 Oedran adeg y diagnosis



FFIGUR 3 Clefyd Perthes yng Nghymru gan Cwintel Amddifadedd



1 www.orphanet.net


2 Perry DC, Bruce CE, Pope D, et al

Perthes' disease of the hip: socioeconomic inequalities and the urban environment
Archives of Disease in Childhood 2012;**97**:1053-1057.

Sirenomelia

Anomaledd cynhenid go brin yw Sirenomelia. Nid oes tystiolaeth bendant ynghylch yr hyn sy'n ei achosi, er bod tystiolaeth wedi cael ei chyhoeddi sy'n awgrymu bod yna gysylltiadau â llygredd amgylcheddol. Nid oes triniaeth, ac anaml y ceir genedigaethau byw. Cofnododd CARIS 17 o achosion rhwng 1998 a 2016; awgryma'r fath nifer y gall y mynychter fod yn uwch yng Nghymru na mewn mannau eraill. Arolygodd CARIS y dystiolaeth gyda golwg ar ystyried a yw'r mynychter yn uwch yng Nghymru o'i chymharu â gwledydd eraill ac i weld a oes clystyrau o achosion wedi digwydd. Gofynnwyd i EUROCAT (Sefydliad Gwyliafwriaeth Anomaleddau Cynhenid Ewrop) am ddata ar gyfer y cyfnod dan sylw, ac awgrymai dadansoddiad fod gan Gymru (â'i 2.2 o achosion i bob 100,000 o enedigaethau) gyfradd fynychter uwch nag Ewrop at ei gilydd (1 achos i bob 100,000 o enedigaethau, gweler Ffigur 4). Cofnodwyd yn agos i hanner (47%) yr achosion yng nghymoedd De Cymru, sef ardal ôl-ddiwydiannol sydd wedi dioddef llygredd amgylcheddol yn y gorffennol. Serch hynny, ni ddangosai'r dadansoddiadau ystadegol yr un dystiolaeth i gysylltiadau epidemiolegol rhwng yr achosion yng Nghymru. Gweler cyfraddau rhagor o glefydau prin ar www.ggacc.wales.nhs.uk/clefydau-prin


FFIGUR 4 Mynychter Sirenomelia i bob 100,000 o enedigaethau fesul gwlad



Diweddariad ar Anomaleddau Cynhenid 2018

Adroddwyd 1,386 o achosion ychwanegol o anomaleddau cynhenid i CARIS yn 2018, gan gynyddu cyfanswm yr achosion yn y gronfa ddata ers i CARIS gael ei sefydlu ym 1998 i 35,739. Arhosodd y gyfran o'r holl enedigaethau (byw a marw) lle roedd anomaledd cynhenid yn sefydlog, yn 5.1%. Mae cyfran y babanod sydd wedi cael eu geni'n fyw ag anomaledd cynhenid ers 1998 yn 85.7%; mae hyn yn cyfateb i 4.38% o'r holl fabanod a anwyd yn fyw. Mae mwyafrif o'r babanod sydd yn cael eu geni'n fyw ag anomaledd cynhenid (97.0%) yn goroesi nes cyrraedd 1 flwydd oed. Mae cyfran yr achosion sydd ag un anomaledd yn unig wedi aros yn sefydlog, sef bron 60%. O'r rhai y cofnodwyd eu rhywedd, roedd 59.1% yn wrywaidd. Mae'r cyfraddau mynychter fesul ardal awdurdod lleol, a grynhoir yn Ffigur 5, wedi aros yn bur ddigyfnewid ers adroddiadau blynyddol blaenorol.

FFIGUR 5 Cyfradd achosion CARIS i bob 10,000 o enedigaethau, 1998-2018. Awdurdodau lleol, cyfradd grynswth i bob 10,000 o enedigaethau



Anhwylderau cylchrediad y gwaed sy'n cyfrif am y grŵp mwyaf o anomaleddau. Crynhoir y cyfraddau o ran llwythau achosion a mynychter ar gyfer y prif grwpiau yn Nhabl 1. Nodwch fod anhwylderau aelodau'r corff a rhai cyhyrol-ysgerbydol wedi cael eu cyfuno y llynedd. Maent wedi cael eu gwahanu drachefn eleni.

TABL 1 Prif grwpiau anomaleddau'r achosion a adroddwyd i CARIS 1998-2018, cyfradd i bob 10,000 o endigaethau byw a marw

	Cyfrifiad	Cyfradd i bob 10,000 o enedigaethau byw a marw
Cylchrediad y gwaed	8,665	123.8
Genetig / sawl lleoliad	5,569	79.6
Aelodau'r corff	5,447	77.8
Cyhyrol-ysgerbydol	5,127	73.3
Treuliol	4,626	66.1
Cenhedlol	4,267	61.0
Troethol	4,111	58.7
Newrolegol	3,257	46.5
Llygaid / clustiau	3,244	46.4
Croen	1,845	26.4
Resbiradol	1,598	22.8
Endocrinol / metabolig	1,575	22.5
Gwaed, system imiwneidd, lymffatig	654	9.3
Neoplastig	374	5.3

Cyhoeddwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio CARIS (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a PHB (ONS)


Amrywiadau Daearyddol yng Nghyfraddau Mynychter Anomaleddau Cynhenid yng Nghymru

Mae amrywiadau daearyddol i'w gweld ar draws Cymru yng Nghyfraddau Mynychter Anomaleddau Cynhenid, a chafwyd bod mynychter uwch yn ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot. Ymgwymerwyd â dadansoddiad ôl-weithredol o achosion CARIS o 1998 tan 2016 er mwyn darganfod a oedd y ffaith bod swyddfa CARIS wedi'i lleoli yn Abertawe wedi gogwyddo'r canlyniadau.

Sylwyd bod y cyfraddau mynychter gryn dipyn yn uwch yn nhiriogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Bae Abertawe yn ystod blynyddoedd cynnar y gofrestr, cyn iddynt ddychwelyd i lefelau Cymru gyfan o 2006 ymlaen (gweler Ffigur 6). Uniaethwyd anhwylderau penodol

â mynychter uchel yn nhiriogaeth BIP Bae Abertawe; serch hynny, roeddent i gyd ar sbectwm o ran enbydrwydd y salwch ac arwyddocad clinigol a allai ddylanwadu ar y modd y cânt eu hadrodd i CARIS dan wahanol amgylchiadau. Mae'n bosibl mai'r ffaith i drefn sgrinio cynenedigol safonol a systemau adrodd electronig gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau casglu data cynhwysfawr ar draws Cymru sydd yn esbonio pam mae cyfraddau BIP Bae Abertawe'n debyg i rai gweddill Cymru o 2006 ymlaen.

FFIGUR 6 Cyfradd gryswth achosion o anomaleddau cynhenid i bob 10,000 o enedigaethau fesul Bwrdd Iechyd 1998-2016



Awduron

David Tucker, Rheolwr CARIS, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Chris Emmerson, Cofrestrydd Arbenigol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Bethan Bowden, Cofrestrydd Arbenigol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Khadija Janoowala – Cofrestrydd Arbenigol, Obstetreg a Gynecoleg
Margery Morgan, Clinigydd Arweiniol CARIS, Obstetreg, Ysbyty Singleton, Swansea
Lion Davies, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru